*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 8FED MEHEFIN, 2023** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 6 MEHEFIN 2023, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 06.04.23 A 20.04.23**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Ebrill a 20 Ebrill 2023 yn rhai cywir.

**7 - 14**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF 22/0650**

Manylion am gynllun, graddfa ac ymddangosiad yr adeiladau, ffordd fynediad a'r dirwedd 18/0923/13 (Cynllun Safle Diwygiedig) **TIR ODDI AR Y B4275, ABERDÂR**

**15 - 30**

**6. CAIS RHIF: 22/1006**

Ailddatblygu hen safle'r Clwb Ceidwadol er mwyn darparu 10 fflat, mannau parcio a'r gwaith cysylltiedig. **SAFLE'R HEN GLWB CEIDWADOL, HEOL BERW, TONYPANDY.**

**31 - 50**

**7. CAIS RHIF: 22/1037**

Annedd arfaethedig a'r ffordd fynediad gysylltiedig **TIR CYFERBYN Â BRYN HYFRYD, TREHAFOD, PONTYPRIDD.**

**51 - 68**

**8.** **CAIS RHIF: 23/0151**

Newid dosbarth defnydd o annedd (Dosbarth Defnydd C3) i gartref i blant (Dosbarth Defnydd C2). **TŶ RHYD-YR-HELYG, YR HEOL FAWR, GWAELOD-Y-GARTH, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 9HJ.**

**69 - 86**

**9.** **CAIS RHIF: 23/0250**

Cadw ac atgyweirio’r adeilad, gan gynnwys adnewyddu'r Awditoriwm, ailfodelu'r cyntedd yn y fynedfa, y bar a'r mezzanine, gosod lifftiau newydd, toiledau, ystafelloedd gwisgo, man newid, storfa ar gyfer biniau a gwelliannau cysylltiedig i'r adeilad **PRIF ADEILADAU'R CYNGOR, HEOL GELLIWASTAD, PONTYPRIDD, CF37 2DP.**

**87 - 102**

**10.** **CAIS RHIF: 23/0251**

Cadw ac atgyweirio’r adeilad, gan gynnwys adnewyddu'r Awditoriwm, ailfodelu'r cyntedd yn y fynedfa, y bar a'r mezzanine, gosod lifftiau newydd, toiledau, ystafelloedd gwisgo, man newid, storfa ar gyfer biniau a gwelliannau cysylltiedig i'r adeilad (Caniatâd Adeilad Rhestredig) **PRIF ADEILADAU'R CYNGOR, HEOL GELLIWASTAD, PONTYPRIDD, CF37 2DP.**

**103 - 112**

**11.** **CAIS RHIF: 23/0335**

Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad **237 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB.**

**113 - 118**

**12.** **CAIS RHIF: 23/0337**

Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad **236 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB.**

**119 - 124**

**13.** **CAIS RHIF: 23/0357**

Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo- newid y math o dŷ a chynllun y safle); ac amod 3 (archwiliadau safle / strategaeth adfer - dileu'r elfen cyn dechrau ar y gwaith) ar gyfer caniatâd cynllunio 19/0387/10. **HEN YSGOL GYNRADD CWM-BACH, HEOL Y BONT, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0LS**

**125 - 140**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**14.** **CAIS RHIF: 22/0273**

Newid defnydd o dafarndy i 4 annedd (Derbyniwyd y Nodyn Trafnidiaeth ar 4 Gorffennaf 2022, derbyniwyd y Strategaeth ar gyfer Draenio Dŵr Budr ar 2 Chwefror 2023) **TAFARN THE BARN, HEOL MEISGYN, MWYNDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8PJ.**

141 - 158

**15. CAIS RHIF: 23/0044**

Cais ôl-weithredol i gadw'r grisiau a'r deciau canol (Ailgyflwyno cais 22/0783/10) **3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.**

159 - 166

**16. CAIS RHIF: 23/0216**

Datblygu 6 tŷ teras. (Derbyniwyd ffurflen Ardoll Seilwaith Cymunedol ar 13 Mawrth 2023, derbyniwyd y cynllun llawr ar 24 Mawrth 2023) **Y TIR CYFERBYN Â 138 STRYD Y DYFFRYN, GLYNRHEDYNOG, CF43 4EH.**

167 - 178

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

**17. CAIS RHIF: 23/0004**

Newid defnydd i ddatblygiad defnydd cymysg sy’n cynnwys annedd breswyl (Dosbarth C3) a chyfleuster gofal plant (Dosbarth D1) **5 CILGANT Y GOEDWIG, ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4UT.**

179 - 192

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**18. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 10/04/2023 – 26/05/2023.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

193 - 220

**19. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson ac Y Cynghorydd R Williams.

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd